# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 26/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes


## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

### Blaenoriaethau Deddfwriaethol

**C1 Nick Ramsay:** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu blaenoriaethau deddfwriaethol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0148(CGE) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig*

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths):** Byddwn yn parhau i gyflawni'r eitemau hynny o ddeddfwriaeth a gyhoeddwyd ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol, gyda'r bwriad o sicrhau bod pob eitem yn cael ei chyflawni cyn etholiadau'r Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol

### Hyrwyddo Diogewlch Tân

**C9 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith llywodraeth leol o ran hyrwyddo diogelwch tân yn y gymuned? OAQ(3)1246(SJL)

**Y Gweindiog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol (Carl Sargeant):** Yr Awdurdodau Tân ac Achub yw'r cyrff statudol sy'n gyfrifol am hybu diogelwch tân. Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiol randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae ein fframwaith tân ac achub cenedlaethol yn rhoi manylion y gwaith cydweithredol sydd mewn llaw i sicrhau bod Cymru yn parhau yn lle diogel i fyw, i weithio ac i ymweld â hi.

### Cyllideb

**C10 Gareth Jones:** Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar lywodraeth leol yn sgîl toriad sylweddol yn ystod y flwyddyn yng nghyllideb ei adran? OAQ(3)1245(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf innau, fel y Gweinidogion eraill, yn craffu ar fy nghyllideb i nodi pa arbedion y mae'n bosibl eu gwneud er mwyn bod yn barod ar gyfer 2011-12 ac wedi hynny. Mae angen eglurhad o sut y bydd cynigion brys Llywodraeth Prydain yn effeithio ar y gyllideb. Sefyllfa Llywodraeth y Cynulliad yw na ddylai gostyngiadau canol blwyddyn i'r gyllideb fod yn berthnasol i Gymru yn ystod 2010-11.

### Blaenoriaethau

**C11 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol am y chwe mis nesaf? OAQ(3)1216(SJL)

**Carl Sargeant:** Yn ogystal â chefnogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel sy’n bodloni anghenion lleol, yn adeiladau cymunedau cryf a chynaliadwy ac yn gweithredu mewn dull agored ac atebol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â’n partneriaid a’n rhanddeiliaid i helpu pobl, busnesau a chymunedau ddelio â’r dirwasgiad economaidd.

### Cymunedau yn Gyntaf

**C12 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)1208(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau yn sylfaenol i’r weledigaeth o adeiladu Cymru well, gyda phartneriaethau lleol yn cydweithio’n glos â darparwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill i adfywio eu cymunedau. Yr wyf wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o raglen Cymunedau yn Gyntaf, ac mae disgwyl cyhoeddi’r adroddiad hwn yng ngwanwyn 2011.

*Tynnwyd cwestiynau 13, OAQ(3)1213(SJL), ac 14, OAQ(3)1205(SJL), yn ôl.*

### Blaenoriaethau Polisi

**C15 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau polisi ar gyfer 2010? OAQ(3)1222(SJL)

**Carl Sargeant:** Yn ogystal â hybu cymunedau diogel a chynaliadwy a mwy o gydlyniant cymunedol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â’n partneriaid a’n rhanddeiliaid i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel yn y cyfnod o gyfyngu ar wariant cyhoeddus sydd o’n blaenau.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Gwella Cyrhaeddiad Addysgol

**C9 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynigion i wella cyrhaeddiad addysgol yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1361(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae’r fframwaith effeithlonrwydd ysgolion yn anelu at wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ganolbwyntio ar wella ansawdd y dysgu a’r arweiniad. Yr ydym yn cydweithio â chonsortia y de-ddwyrain a chanol de Cymru a CLlLC i sefydlu’r fframwaith effeithlonrwydd ysgolion ar lefel yr awdurdod lleol a’r ysgolion.

### Cyfnod Sylfaen

**C10 Bethan Jenkins:** A oes cynlluniau i ehangu cysyniad y cyfnod sylfaen i grwpiau oed ysgol hŷn? OAQ(3)1363(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae’r cyfnod sylfaen yn darparu cwricwlwm holistaidd, sy’n seiliedig ar chwarae i fodloni anghenion plant unigol, ac yn gwella cyrhaeddiad addysgol. Mae ysgolion yn defnyddio’r hyblygrwydd a’r cyfle i arloesi sy’n cael ei gynnig yn y cwricwlwm diwygiedig yng Nghyfnod Allweddol 2, i adeiladu ar y cyfnod sylfaen a’i ategu.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(3)1357(CEL), yn ôl.*

### Gwella Addysg

**C12 Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella addysg i bobl ifanc? OAQ(3)1367(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae’r fframwaith effeithlonrwydd ysgolion, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac ysgolion, yn anelu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, yn enwedig drwy ganolbwyntio ar wella ansawdd y dysgu a’r arweiniad mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae’n ceisio lleihau’r amrywiad o fewn a rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.

### Polisïau

**C13 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer ymchwil prifysgol yng Nghymru? OAQ(3)1387(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae gwaith ymchwil prifysgol yn ganolog i’n strategaeth ‘Er Mwyn Ein Dyfodol’, sydd bob tro’n drylwyr, yn gynaliadwy ac yn cael ei barchu’n fyd-eang. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi meysydd allweddol o gryfder ym maes ymchwil yng Nghymru, a drwy hynny sicrhau bod ein prifysgolion yn cael eu cydnabod fel arweinwyr yn y meysydd y maent yn arbenigo ynddynt.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)1365(CEL), yn ôl.*

### Rheoli Arian

**C15 Sandy Mewies:** Pa arweiniad mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi i ysgolion i’w hannog i ddysgu pobl ifanc i reoli arian? OAQ(3)1393(CEL)

**Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis):** Mae uned addysg ariannol Cymru, a sefydlwyd mewn partneriaeth â’r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, yn rhoi cymorth i ysgolion ac awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o’r cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol sydd wedi’u sefydlu yn y cwricwlwm ysgol diwygiedig ar gyfer plant 7-16 mlwydd oed.